WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Dilynol o'r Trefniadau ar gyfer Cadw Gwybodaeth Wrth Gefn, Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes, ac Ansawdd Data: Diweddariad ar Gynnydd – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 500A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol

Os bydd cais yn cael ei dderbyn am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Melanie Williams ac Anne Beegan.

# Cynnwys

Yn hanesyddol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn araf wrth roi sylw i argymhellion, ond dros y 12 mis diwethaf, mae wedi gweithredu mwyafrif yr argymhellion, ac mae yna waith ar y gweill i gwblhau'r gweddill.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 5

Argymhellion 6

Atodiadau

Atodiad 1 – cynnydd y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion gwreiddiol 8

Atodiad 2 – ymateb rheolwyr i argymhellion newydd 24

# Adroddiad Cryno

## Cyflwyniad

1 Mae byd technoleg wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y ganrif ddiwethaf, ac mae cyfradd y newid yn parhau ar y fath gyflymder. Dau o ganlyniadau mwyaf arwyddocaol hyn yw ein dibyniaeth gynyddol ar dechnoleg a'r cynnydd esbonyddol yn swmp y data yr ydym erbyn hyn yn ei ddal ac wedi dod i ddibynnu arno.

2 Mae ar Fyrddau Iechyd angen i sicrhau bod ganddynt systemau gwybodaeth a data dibynadwy, diogel a manwl gywir y gallant ddibynnu arnynt er mwyn sicrhau diogelwch y claf. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac, yn benodol, yn y 12 mis diwethaf, gwelsom nifer cynyddol o ymosodiadau seiber yn effeithio ar systemau TG nifer o gwmnïau a'u gallu i barhau i weithredu eu busnesau yn ôl yr arfer. Roedd hyn yn cynnwys ymosodiad seiber yn 2017, a effeithiodd ar nifer o sefydliadau ar draws y byd.

3 Effeithiodd yr ymosodiad seiber yn 2017 ar nifer sylweddol o gyrff y GIG ar draws y Deyrnas Unedig, gan gynnwys cyrff yma yng Nghymru. Yn Lloegr, achosodd yr ymosodiad seiber i nifer o gyrff y GIG atal gwasanaethau a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar gleifion. Maent wedi cydnabod na weithiodd eu gwaith ar adfer TG ar ôl trychineb, na pharhad eu busnes gweithredol/clinigol a TG fel yr oeddent wedi rhagweld. Er na chollwyd unrhyw ddata yn sgil hyn, cafwyd oedi wrth adfer systemau ac wrth barhau i gynnig gwasanaethau arferol i gleifion yn ystod y cyfnod nad oedd y gwasanaethau hyn ar-lein. Er nad oedd yr effaith ar y GIG yng Nghymru mor ddifrifol â'r effaith yn Lloegr, ni ddylai'r GIG yng Nghymru fod yn hunanfodlon. Yn hytrach, dylai ddysgu o brofiad cyrff y GIG yn Lloegr.

4 Ers 2012, rydym wedi cwblhau archwiliadau Technoleg Gwybodaeth a Llywodraethu Gwybodaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) ac, o ganlyniad, cafwyd nifer o argymhellion. Mae adolygiadau dilynol blaenorol wedi darganfod mai araf fu'r Bwrdd Iechyd wrth weithredu ar yr argymhellion hyn.

5 Fel rhan o'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2017, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith lleol i gyflwyno'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch argymhellion o'n hadroddiadau TG a gwblhawyd rhwng 2012 a 2015. Dechreuom ym mis Medi 2017, gan holi'r cwestiwn canlynol: **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd digonol mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiadau gwreiddiol?**

6 Wrth ymgymryd â'r diweddariad hwn ar gynnydd, rydym wedi:

- adolygu cyfres o ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau i'r Bwrdd a'i bwyllgorau;
- adolygu dogfennaeth systemau ac edrych ar wybodaeth fyw ar systemau gan gynnwys profi rhai o reolyddion y systemau;

- adolygu adroddiadau yn ymwneud â gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) sydd wedi cael effaith ar ein hargymhellion neu wedi eu disodli; a
- chyfweld nifer o staff y Bwrdd Iechyd i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau'r dyfodol.

7 Yn yr adran ganlynol, ceir crynodeb o'n canfyddiadau. Ceir manylion pellach yn Atodiad 1.

# Ein canfyddiadau

8 Ein casgliad cyffredinol yw bod y Bwrdd Iechyd, yn hanesyddol, wedi bod yn araf wrth roi sylw i argymhellion, ond dros y 12 mis diwethaf, mae wedi gweithredu mwyafrif yr argymhellion, ac mae yna waith ar y gweill i gwblhau'r gweddill.

9 I grynhoi, ceir statws y cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion blaenorol yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: statws argymhellion blaenorol

| Cyfanswm yr argymhellion | Gweithredwyd | Ar waith | Hwyr | Disodlwyd |
|---|---|---|---|---|
| 26 | 16 | 9 | - | 1 |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

10 Ein canfyddiad oedd bod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu 16 o'r argymhellion ac wedi gwneud cynnydd yn erbyn naw o'r argymhellion, gydag un argymhelliad wedi cael ei ddisodli.

- Mae'r trefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn wedi gwella'n sylweddol. Erbyn hyn, mae Cofrestr Asedau a Pherchenogion Asedau Gwybodaeth ar waith. Mae Meddalwedd Gwybodaeth Wrth Gefn bellach ar waith, ac mae hyn wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu polisïau gwybodaeth wrth gefn ar gyfer pob system. Ar hyn o bryd, mae yna bolisïau generig ar waith ar sail canllawiau cenedlaethol ar gyfer y math o wasanaeth, ond nid yw perchenogion asedau gwybodaeth wedi cytuno ar y polisïau hyn eto.
- Mae ar y Bwrdd Iechyd angen i wella'i drefniadau adfer ar ôl trychineb a'i drefniadau parhad busnes ymhellach. Yn hanfodol, mae arno angen profi'r trefniadau, i sicrhau y buasent yn gweithredu yn ôl y disgwyl yn wyneb methiant catastroffig neu ymosodiad seiber llwyddiannus o bwys.

- Gwelwyd gwelliant mewn trefniadau ansawdd data ond mae ar y Bwrdd Iechyd angen i gynyddu cyflymder y gwelliant hwn, yn enwedig wrth ymgysylltu perchenogion yr asedau gwybodaeth yn y broses o sicrhau ansawdd data.

# Argymhellion

11 Rydym wedi nodi dau faes mewn perthynas â threfniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn sy'n mynnu argymhellion pellach. Mae ar y Bwrdd Iechyd angen i barhau i wneud cynnydd wrth roi sylw i'r holl argymhellion sydd eto i'w cwblhau. Ceir yr argymhellion newydd a'r argymhellion sydd eto i'w cwblhau yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: argymhellion

| Argymhellion blaenorol sydd eto i'w cwblhau | |
|---|---|
| **Adolygiad o'r Trefniadau ar gyfer Cadw Gwybodaeth Wrth Gefn** | |
| A3 | Datblygu polisïau a chynlluniau ffurfiol ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn ar gyfer pob system, y cytunir arnynt gyda pherchenogion asedau ac sy'n seiliedig ar asesiadau risg. |
| **Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes** | |
| A1 | Datblygu dull corfforaethol o gryfhau a chefnogi arfer gorau wrth Adfer ar ôl Trychineb a Sicrhau Parhad Busnes, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i flaenoriaethu adnoddau i'w gyflawni. |
| A3 | Cwblhau'r Strategaeth Adfer ar ôl Trychineb a datblygu cynllun gwaith sicrhau TGCh, sy'n cynnwys rhaglen ar gyfer gwella adferiad ar ôl trychineb. Dylai'r rhaglen gynnwys hyfforddiant ar adfer TGCh ar ôl trychineb, prosiect canolfan data a phrosiect system wrth gefn. |
| A4 | Sicrhau bod y canlynol wedi eu cwblhau ym mhrosiect Parhad Busnes y Bwrdd Iechyd:<br>• datblygir cynlluniau parhad busnes ar gyfer pob adran (gan gynnwys TGCh); a<br>• diffinnir a gweithredir y broses gorfforaethol ar gyfer monitro, archwilio ac adrodd ar gynnydd wrth brofi cynlluniau parhad busnes adrannol yn rheolaidd. |
| A5 | Datblygu a dogfennu cynllun Adfer TGCh ar ôl Trychineb ar gyfer pob system y mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb adfer ar ôl trychineb drosti. |
| A8 | Cynllunio a gweithredu amserlen ar gyfer profi adferiad ar ôl trychineb a chyfryngau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn er mwyn rhoi sicrwydd y gellid adfer cymwysiadau a data'n llwyddiannus yn yr amser gofynnol, ar ôl colli system. |

| Argymhellion blaenorol sydd eto i'w cwblhau | |
|---|---|
| **Ansawdd Data** | |
| A3 | Cyflwyno adroddiad blynyddol ar ansawdd data, i roi sicrwydd ar raddfa sefydliadol sy'n cwmpasu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau ansawdd data, ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn. |
| A5 | Adolygu'r 'Strategaeth ar gyfer Sicrhau Gwybodaeth o fewn Bwrdd Iechyd Hywel Dda' a sicrhau ei bod yn cwmpasu pob elfen o bolisi ansawdd data, gan gynnwys:<br>• safonau data; y defnydd o gofnodion gwybodaeth y claf; diogelwch a chyfrinachedd; achrediad data a chofnodion iechyd; ansawdd y data a ddefnyddir wrth adrodd ar berfformiad; data a gafwyd gan ddarparwyr eraill; cyfeiriadau at bolisïau Archwilio Codio Clinigol a Chodio Clinigol. |
| A8 | Adolygu'r prosesau ansawdd data ar raddfa'r gwasanaeth a sicrhau bod arfer da a mecanweithiau profi'n cael eu rhannu a'u defnyddio ar draws y Bwrdd Iechyd. Gallai hyn gynnwys:<br>• arferion glanhau data sy'n digwydd fel mater o drefn i wella cysondeb rhwng systemau Radioleg a'r System Gweinyddu Cleifion (PAS); a<br>• sefydlu profion samplau wythnosol ar gyfer goruchwylwyr codio clinigol a mecanweithiau gwirio adrannol eraill sy'n arfer da. |
| **Argymhellion newydd** | |
| **Cadw gwybodaeth wrth gefn** | |
| A11 | Monitro meddalwedd Solarwinds yn barhaus i adnabod materion gyda'r rhwydwaith cyn iddynt ddatblygu i fod yn argyfyngus. |
| A12 | Gweithredu amserlen fonitro ddyddiol ar gyfer system cadw gwybodaeth wrth gefn Asigra i adnabod materion gyda'r capasiti i storio cyn iddynt ddatblygu i fod yn argyfyngus. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Cynnydd y Bwrdd Iechyd ers i ni gyflwyno'n hargymhellion blaenorol rhwng 2012 a 2015

Arddangosyn 3: Asesu cynnydd

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn** | | | | |
| **Cynllunio trefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn** | | | | |
| A1 | Cwblhau'r gofrestr asedau ac adnabod/pennu perchenogion asedau. Dylai'r gofrestr hefyd nodi a oes cynllun ar waith ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn a chynnwys dolenni at leoliad y cynllun hwnnw. Dylai cynlluniau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn fod yn seiliedig ar asesiad risg o'r system unigol, dylid cytuno ar hyn gyda'r perchenogion asedau a dylai fodloni anghenion y defnyddwyr. | Mawrth 16 | Gweithredwyd | Yn ein hadolygiad blaenorol, ein canfyddiad oedd bod cofrestr asedau gwybodaeth yn bodoli ond, serch hynny, roedd yn anghyflawn ac yn anodd ei dilyn. Nid oedd yn dogfennu p'un ai fod cynlluniau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn ar waith ar gyfer pob un o'r systemau ac nid oedd yn nodi lleoliad yr holl wybodaeth wrth gefn. Nodwyd gwendidau yn y gofrestr asedau gwybodaeth hefyd yn yr adroddiad Adfer ar ôl Trychineb/Parhad Busnes a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2012 ac yn ein hasesiad risg Technoleg a Rheoli Gwybodaeth ym mis Chwefror 2014.<br>Ers ein hadolygiad, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd ac erbyn hyn mae ganddo gofrestr asedau mwy cynhwysfawr ar waith, a elwir yn gatalog y gwasanaeth. Mae'n cwmpasu'r holl systemau a'r gweinyddion, yn gyflawn ar gyfer yr holl systemau sy' hanfodol i fusnes (systemau clinigol a gweinyddol) ac yn nodi a yw' rhain yn systemau cenedlaethol neu leol. Mae'r catalog hefyd yn nodi a oes trefniadau ar waith ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn ac yn manylu ar y math o drefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn a lleoliad y gweinydd. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Mae catalog y gwasanaeth yn nodi perchenogion asedau ac mae yna grŵp Perchenogion Asedau Gwybodaeth, sy'n cytuno ar newidiadau i amserlenni a threfniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn.<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd system fonitro ar waith ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn ac mae wedi'i diweddaru. Mae'n cofnodi ac yn rhybuddio staff TG yn awtomatig trwy e-bost y system pan fydd problemau'n codi gydag unrhyw wybodaeth wrth gefn. Mae'r system hon yn cofnodi ac yn monitro'r holl wybodaeth wrth gefn ar gyfer gweinyddion a systemau dan reolaeth TG. (Nid yw'n monitro systemau cenedlaethol nac unrhyw beth tu allan i reolaeth TG). Gall staff TG hefyd weld cofnod y system gwybodaeth wrth gefn ar unrhyw adeg.<br>Yn ychwanegol at gatalog y gwasanaeth, mae'r tîm llywodraethu gwybodaeth, gyda chymorth y tîm TG a defnyddwyr adrannol, yn cynnal archwiliadau o asedau gwybodaeth er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyniad Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ym mis Mai 2018. Adeg ein harchwiliad, nid oedd yr holl archwiliadau asedau gwybodaeth wedi cael eu cwblhau ond gwelwyd cynnydd da. Yn y pendraw, bydd yr archwiliadau hyn yn sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth lwyr o'i holl asedau gwybodaeth. Byddant hefyd yn adnabod unrhyw systemau TG, a fydd yn asedau gwybodaeth yn ôl eu diffiniad, nad ydynt dan reolaeth TG, os oes unrhyw rai'n bodoli. |
| A2 Cynnal asesiad risg o'r holl systemau TG i ganiatáu i'r Bwrdd Iechyd bennu ymateb wedi'i flaenoriaethu i unrhyw fethiant i system, ac i ganiatáu i uwch reolwyr bennu a yw'r adnoddau TG cyfredol yn ddigonol i liniaru'r risgiau i'r seilwaith a'r rhwydwaith TG yn wyneb methiant catastroffig. | Mawrth 2016 | Gweithredwyd | Yn ein hadolygiad blaenorol, nodwyd nad oedd newidiadau i amserlenni TG ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn yn cael eu monitro'n ffurfiol na'u cytuno gyda pherchenogion asedau. Nodwyd yn ein hadolygiad hefyd na chafwyd unrhyw asesiad risg cyffredinol o'r holl systemau TG.<br>Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal asesiad risg llawn o'i holl systemau o hyd, oherwydd diffyg adnoddau. Serch hynny, mae gan y Bwrdd Iechyd gofrestr risgiau TGCh wedi'i diweddaru sy'n goleuo'r gofrestr risg gorfforaethol, ac yn cofnodi'r risgiau TGCh mawr ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>Gyda Pherchenogion Asedau Gwybodaeth bellach yn eu lle ar gyfer yr holl systemau sy'n hanfodol i fusnes, mae'r grŵp Perchenogion Asedau Gwybodaeth bellach yn nodi unrhyw risgiau o bwys ac yn eu |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | bwydo i'r gofrestr risgiau TGCh. Byddai hyn yn cynnwys nodi'r angen i gadw gwybodaeth wrth gefn yn amlach neu newid y math o drefniadau cadw gwybodaeth wrth gefn i fodloni anghenion y gwasanaeth yn wyneb methiant catastroffig. |
| A3 | Datblygu polisïau a chynlluniau ffurfiol ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn i bob system. Dylai'r perchenogion asedau gytuno arnynt a dylent fod yn seiliedig ar yr asesiadau risg a gyflwynwyd yn A2 uchod. | Mawrth 2016 | Ar waith | Yn ein hadolygiad blaenorol, nodwyd nad oedd polisïau a chynlluniau ffurfiol ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn yn bodoli ar gyfer pob system, ac nad oedd perchenogion asedau mewn lle.<br>Bellach, mae polisi ffurfiol ar waith ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn ac, er nad oes cynlluniau penodol ar waith ar gyfer pob system, datblygwyd cynlluniau generig ar sail y math o dechnoleg a'r defnydd o'r system ar gyfer pob system, a chânt eu monitro gan feddalwedd monitro ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o ddatblygu cynlluniau penodol ar gyfer yr holl systemau pwysig sy'n hanfodol i fusnes ac sydd dan ei reolaeth. Mae'r rhain yn cael eu datblygu gyda'r Perchenogion Asedau Gwybodaeth a'r tîm TG. |
| A4 | Cytuno ar gytundeb cadw gwybodaeth wrth gefn ar gyfer system genedlaethol Myrddin, a'i awdurdodi'n ffurfiol. | Mawrth 2016 | Gweithredwyd | Yn ein hadolygiad blaenorol nodwyd na chytunwyd yn ffurfiol ar y cytundeb rhwng y Bwrdd Iechyd a NWIS ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn ar gyfer y system Myrddin a reolir yn genedlaethol, ac na chafodd ei awdurdodi'n ffurfiol chwaith.<br>Bellach mae yna gytundeb ffurfiol ar waith rhwng y Bwrdd Iechyd a NWIS ar gyfer system genedlaethol Myrddin. |
| **Trefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn yn effeithiol** | | | | |
| A5 | Cadarnhau bod systemau clinigol hanfodol o'r gorffennol, fel systemau PACS ar gyfer y Fron, PACS Cardioleg a system ragnodi Warfarin DAWN wedi eu lleoli o fewn y rhith-amgylchedd diogel. Fan lleiaf, dylid cadw gwybodaeth wrth gefn ar gyfer yr holl systemau ar safle pell, ar adeg ac amledd sy'n briodol i bwysigrwydd y system a'i data. | Ebrill 2016 | Gweithredwyd | Yn ein hadolygiad blaenorol, ein canfyddiad oedd nad oedd y systemau hanfodol o'r gorffennol, gan gynnwys systemau PACS ar gyfer y Fron, PACS Cardioleg a system ragnodi Warfarin DAWN wedi eu lleoli o fewn y rhith-amgylchedd diogel.<br>Adolygwyd statws a lleoliad y systemau hyn a chafwyd y canlyniadau canlynol:<br>• Adnewyddwyd seilwaith system ragnodi Warfarin DAWN ac mae bellach wedi'i lleoli o fewn y prif ganolfannau data ac yn cael ei dyblygu rhwng safleoedd;<br>• Lleolir PACS Cardioleg ar seilwaith ar wahân ond caiff ei chynnal o fewn y prif ganolfannau data; a |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | • Mae PACS y Fron yn y broses o gael ei mudo i mewn i brif amgylchedd PACS Fuji ond mae'r trefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn ar waith tra bod hyn yn digwydd.<br>Cedwir gwybodaeth wrth gefn ar gyfer yr holl systemau a chânt eu dyblygu rhwng y prif ganolfannau data. Caiff y broses o gadw gwybodaeth wrth gefn ei monitro. |
| A6 Datblygu gweithdrefn i sicrhau bod yr holl newidiadau i bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn yn cael eu dogfennu'n llwyr a'u cymeradwyo gan reolwr priodol. | Medi 2016 | Gweithredwyd | Yn ein hadolygiad blaenorol, ein canfyddiad oedd nad oedd yna weithdrefnau ffurfiol ar gyfer rheoli newid, er mwyn dogfennu newidiadau i bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn.<br>Fel y nodir uchod, mae'r grŵp Perchenogion Asedau Gwybodaeth yn nodi newidiadau i gynlluniau a gweithdrefnau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn. Yna, caiff y rhain eu dogfennu fel gweithgarwch rheoli'r gwasanaeth yn y Cynllun Gweithredu Gwybodeg blynyddol. Bydd newidiadau ffurfiol i bolisïau cadw gwybodaeth wrth gefn yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Gwybodeg blynyddol yn ôl yr angen neu yn ôl yr hyn y bydd amledd y diweddariadau'n ei fynnu.<br>Gan fod y gweithdrefnau hyn yn newydd, nid ydym wedi gallu gweld y rhain ar waith, ond mae'r trefniadau bellach ar waith. |
| A7 Gweithredu gweithdrefnau monitro ar gyfer caledwedd gweinyddion byw a chadw gwybodaeth wrth gefn a'r holl feddalwedd sy'n gysylltiedig. | Ebrill 2016 | Gweithredwyd ond mae'n bosibl sicrhau buddion pellach | Nid oedd y gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer monitro caledwedd gweinyddion byw a chadw gwybodaeth wrth gefn ar waith yn ystod ein Hadolygiad o'r Trefniadau ar gyfer Cadw Gwybodaeth Wrth Gefn.<br>Bellach, mae'r system Solarwinds, a ddefnyddir mewn nifer o Fyrddau Iechyd, yn cael ei defnyddio i fonitro gweinyddion y rhwydwaith a gweinyddion byw a chadw gwybodaeth wrth gefn. Cynigia dangosfwrdd weledol ac adroddiadau dyddiol ar iechyd systemau/gweinyddion a pherfformiad wrth gadw gwybodaeth wrth gefn.<br>Byddai'r system hon yn dod yn fwy effeithiol eto ac yn galluogi'r tîm TG i adnabod materion cyn iddynt ddod yn argyfyngus i'r systemau/gweinyddion, petai sgriniau arddangos sy'n dangos y dangosfwrdd byw ar gael i staff yn barhaus, ac yn cael eu monitro'n barhaus ganddynt, efallai gan dîm y ddesg gymorth. |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| A8 | Lle'n bosibl, gosod caledwedd newydd yn lle caledwedd sydd wedi heneiddio ac y mae'r gefnogaeth ar ei gyfer ar fin dod i ben, i sicrhau diogelwch systemau a data. Roedd hyn hefyd yn argymhelliad yn ein hadroddiad ar Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes yn 2012. | Ebrill 2016 | Gweithredwyd | Roedd ein Hadolygiad o'r Trefniadau ar gyfer Cadw Gwybodaeth Wrth Gefn, a'n Hadolygiad o'r Trefniadau Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes yn argymell y dylid gosod caledwedd newydd yn lle caledwedd sy'n heneiddio ac y mae'r cymorth ar ei gyfer ar fin dod i ben, lle y bo'n bosibl.<br>Erbyn hyn, gosodwyd systemau newydd yn lle mwyafrif y systemau o'r gorffennol a oedd ar waith yn ystod ein hadolygiadau ac o fewn rheolaeth y Bwrdd Iechyd. Serch hynny, wrth i'r dirwedd dechnolegol symud ymlaen ar y fath gyflymder, mae hyn yn her barhaus i'r Bwrdd Iechyd.<br>Fodd bynnag, gosodir caledwedd newydd fel y mae'r cyllid cyfalaf yn caniatáu a dangosir hyn yn y rhestr o galedwedd a meddalwedd o'r gorffennol i'w disodli yng Nghynllun Gweithredol TGCh 2017/18 fel a ganlyn:<br>• Caledwedd rhwydwaith yn Ysbyty Glangwili<br>• E-bost<br>• VMWARE<br>• Systemau storio<br>Er bod caledwedd a meddalwedd sy'n heneiddio yn dal i gael eu hamnewid, rydym o'r farn fod yr argymhelliad wedi'i weithredu gan fod y Bwrdd Iechyd yn gosod caledwedd a systemau newydd yn lle rhai sydd wedi dyddio fel y mae'r cyllid yn caniatáu. Byddwn yn parhau i fonitro hyn fel rhan o'n hasesiad risg blynyddol, i sicrhau nad yw'r Bwrdd Iechyd yn peryglu diogelwch y claf trwy beidio â gosod caledwedd a meddalwedd newydd yn lle caledwedd a meddalwedd sydd wedi dyddio ac nad yw'n cael ei gefnogi mwyach. |
| **Monitro perfformiad gwaith cadw gwybodaeth wrth gefn** | | | | |
| A9 | Ystyried safoni'r feddalwedd a ddefnyddir i gadw gwybodaeth wrth gefn gan y gallai fod yn fwy effeithlon a haws ei monitro. Fan lleiaf: | Ebrill 2016 | Gweithredwyd | Nodwyd yn ein Hadolygiad o'r Trefniadau ar gyfer Cadw Gwybodaeth Wrth Gefn fod yna nifer o fathau gwahanol o feddalwedd cadw gwybodaeth wrth gefn ar waith. I raddau helaeth, roedd hyn yn ganlyniad i'r ffaith fod systemau cadw gwybodaeth wrth gefn o'r gorffennol yn dal i fod ar waith ar gyfer rhai systemau. Nid oedd y gwaith o fonitro'r amrywiaeth o systemau yn effeithlon ac nid oedd |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| • dylai’r holl feddalwedd a chaledwedd ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn fod wedi’i diweddaru a dylai gael ei monitro’n rheolaidd; a<br>• dylid profi gwybodaeth wrth gefn yn rheolaidd.<br>Gellir dangos tystiolaeth o’r gwaith o brofi gwybodaeth wrth gefn, lle mae systemau prawf yn cael eu creu’n rheolaidd gan gyfryngau cadw gwybodaeth wrth gefn, trwy gofnodi pob achos o greu system brawf fel prawf Adfer ar ôl Trychineb. | | | cynnal y nifer o systemau cadw gwybodaeth wrth gefn yn effeithlon chwaith.<br>Ers ein hadolygiad, mae’r Bwrdd Iechyd wedi prynu’r system Asigra ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn, ac mae bellach yn cael ei defnyddio i gadw gwybodaeth wrth gefn ar gyfer y systemau sydd dan reolaeth y Bwrdd Iechyd (mae yna drefniadau cenedlaethol ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn ar gyfer systemau Cenedlaethol ac nid ydynt dan reolaeth y Bwrdd Iechyd).<br>I gychwyn, roedd yna oedi cyn gweithredu’r system newydd ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn yn llwyr, oherwydd materion storio, ond unionwyd hyn ym mis Mawrth 2017 ac mae’r system ddiwethaf o’r gorffennol bellach wedi cael ei datgomisiynu.<br>Mae system cadw gwybodaeth wrth gefn Asigra hefyd yn monitro’r holl wybodaeth wrth gefn a gedwir ac yn rhybuddio ynghylch unrhyw fethiant neu faterion sy’n codi wrth gadw gwybodaeth wrth gefn, ac felly mae’r tîm TG yn gallu cymryd camau priodol i unioni hyn. Mae’r system hon hefyd yn caniatáu cofnodi’r amserlen lawn o waith cadw gwybodaeth wrth gefn, ynghyd ag unrhyw newidiadau i’r amserlen, ac felly mae yna lwybr archwilio ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| A10 Sicrhau bod perfformiad gwaith cadw gwybodaeth wrth gefn, maint ffeiliau, materion a gododd, a'r amser a gymerwyd i ddatrys y materion hyn yn cael eu cofnodi ac yr adroddir arnynt yn ffurfiol i uwch reolwyr a phwyllgorau priodol. Trwy gasglu gwybodaeth am berfformiad, gellir adnabod materion a allai godi gyda storio data a chaledwedd: | Ebrill 2016 | Gweithredwyd ond mae'n bosibl sicrhau buddion pellach | Yn ein hadolygiad blaenorol, daethom i'r casgliad nad oedd perfformiad gwaith cadw gwybodaeth wrth gefn yn cael ei fonitro'n gyson ac na adroddwyd arno'n gyson chwaith. O ganlyniad, roedd yna berygl na fyddai materion posibl gyda chaledwedd, meddalwedd a storio data yn cael eu codi mewn da bryd fel bod digon o amser i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i'w hunioni.<br>Fel y manylir uchod, mae'r system Asigra newydd ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn yn darparu adroddiadau ar wybodaeth wrth gefn ac yn ei fonitro'n weithgar.<br>Serch hynny, ni chaiff y system hon ei monitro'n weithgar yn ddyddiol ac er y bydd y system yn e-bostio gwybodaeth am namau gwirioneddol at aelodau o staff, efallai na fydd hyn yn gadael digon o amser i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau ynghylch materion megis capasiti i storio. Er mwyn lliniaru hyn, dylai'r Bwrdd Iechyd amserlennu staff i adolygu adroddiadau'r system Asigra yn ddyddiol, gyda golwg ar adnabod unrhyw broblemau sy'n codi cyn i'r methiant ddigwydd. |
| **Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes** | | | |
| A1 Datblygu dull corfforaethol o gryfhau a chefnogi arfer gorau wrth Adfer ar ôl Trychineb a Sicrhau Parhad Busnes, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i flaenoriaethu adnoddau i'w gyflawni. | - | Ar waith | Yn ein hadolygiadau blaenorol, nodwyd bod diffyg rhyngweithio rhwng defnyddwyr a TG, ac na chwblhawyd unrhyw asesiadau risg ar gyfer adfer ar ôl trychineb. Yn sgil hyn, cafwyd diffyg eglurder ynghylch amserau adfer systemau.<br>Cyhoeddwyd ein hadroddiad gwreiddiol yn 2012 a buom yn adolygu'r cynnydd yn 2015. Bryd hynny ni welwyd unrhyw gynnydd arwyddocaol.<br>Ers 2015, mae'r tîm TG wedi cydnabod ei fod yn cymryd amser i sefydlu'r grŵp Perchenogion Asedau Gwybodaeth a bod angen gweithredu yn y cyfamser. O ganlyniad, mae'r tîm TG wedi defnyddio canllawiau amcan pwynt adfer (RPO) /amcan amser adfer (RTO), ar sail categori'r gwasanaeth, i sefydlu pwyntiau ac amserau adfer interim ar gyfer pob system. Er bod diffyg rhyngweithio gyda defnyddwyr o hyd, mae'n rhoi mwy o eglurder ynghylch Adfer ar ôl Trychineb/Parhad Busnes ac yn dangos cynnydd yn erbyn yr argymhelliad.<br>Y bwriad yw cael y grŵp Perchenogion Asedau Gwybodaeth i drafod yr RPO a'r RTO ar gyfer pob system fawr sy'n hanfodol i fusnes, ac i gytuno arnynt, yn y dyfodol agos. Gan fod y grŵp Perchenogion |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Asedau Gwybodaeth yn ei grud o hyd, ac wedi cyfarfod nifer fechan o weithiau yn unig, adeg ein harchwiliad, mae'r gwaith hwn ar waith o hyd ac, fel y cyfryw, byddwn yn adolygu cynnydd yn erbyn hyn mewn archwiliadau yn y dyfodol. |
| A2 Adolygu'r contractau a'r cytundebau gyda chyflenwyr allanol systemau clinigol i sicrhau y ceir diffiniad digonol ar gyfer:<br>• cyfrifoldebau'r sefydliad sy'n cyflenwi a'r sefydliad sy'n derbyn;<br>• lleoliad y gwasanaeth, sefydlu'r gwasanaeth a nodweddion cydnerthedd;<br>• argaeledd y gwasanaeth a chysylltiadau;<br>• Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac adrodd ar y rhain;<br>• trefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn; a<br>• threfniadau at gyfer adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes. | - | Gweithredwyd, yn ddibynnol ar ymgymeriad gan y Bwrdd Iechyd | Yn ein hadolygiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn yn 2015, nodwyd bod contractau ar gyfer pob system TG fawr sy'n hanfodol i fusnes, wedi cael eu hadolygu. Serch hynny, bryd hynny nid oeddem wedi gallu cadarnhau bod yr holl gontractau wedi cael eu hadolygu.<br>Cadarnhaodd y tîm TG na welwyd unrhyw gynnydd pellach yn erbyn yr argymhelliad hwn oherwydd y contractau niferus sydd ar waith a'r adnoddau sylweddol fyddai'n ofynnol er mwyn adolygu pob contract yn ffurfiol. Adolygir contractau pan fyddant yn barod i gael eu hadnewyddu.<br>Rydym yn cydnabod y pwysau ar adnoddau cyfyngedig y tîm TG, bod y contractau sy'n gysylltiedig â'r systemau TG sy'n hanfodol i fusnes wedi cael eu hadolygu a bod mwyafrif y rhain dan Gytundebau Lefel Gwasanaeth ffurfiol neu'n wasanaethau sy'n cael eu rheoli. Rydym felly o'r farn fod yr argymhelliad hwn wedi cael ei weithredu, ar yr amod fod y Bwrdd Iechyd yn cytuno i sicrhau y bydd gan gontractau newydd ddiffiniad digonol o'r pwyntiau a wnaed yn yr argymhelliad gwreiddiol, fel a ganlyn, pan fyddant yn dod i ben ac yn barod i gael ei hadnewyddu neu ddisodli:<br>• cyfrifoldebau'r sefydliad sy'n cyflenwi a'r sefydliad sy'n derbyn;<br>• lleoliad y gwasanaeth, sefydlu'r gwasanaeth a nodweddion cydnerthedd;<br>• argaeledd y gwasanaeth a chysylltiadau;<br>• Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac adrodd ar y rhain;<br>• trefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn; a<br>• threfniadau at gyfer adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes. |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| A3 | Cwblhau'r Strategaeth Adfer ar ôl Trychineb a datblygu cynllun gwaith sicrhau TGCh, sy'n cynnwys rhaglen ar gyfer gwella adferiad ar ôl trychineb. Dylai'r rhaglen gynnwys hyfforddiant ar adfer TGCh ar ôl trychineb, prosiect canolfan data a phrosiect system wrth gefn. | - | Ar waith | Yn ein hadolygiad yn 2015, nodwyd y gwelwyd cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn a bod strategaeth ar waith ar gyfer adfer ar ôl trychineb. Serch hynny, nid oedd yn adlewyrchu'r ffaith fod systemau o'r gorffennol yn dal i fodoli tu allan i'r brif ganolfan ddata. Yn ychwanegol at hyn, ni chytunwyd ar amserlenni gwasanaeth gyda pherchenogion systemau, ni phennwyd perchenogion data ar gyfer pob system ac ni chafwyd prawf llawn ar gyfer adfer ar ôl trychineb.<br>Gwelwyd cynnydd pellach erbyn hyn ac mae mwyafrif y systemau o'r gorffennol bellach yn eistedd o fewn y prif ganolfannau data. Erbyn hyn, mae'r holl systemau sy'n hanfodol i fusnes o fewn yr amgylchedd hwn a chedwir gwybodaeth wrth gefn neu caiff ei dyblygu ar draws y prif safleoedd data. Pennir Perchenogion Asedau Gwybodaeth ar gyfer pob system sy'n hanfodol i fusnes ac maent yn y broses o gael eu dynodi ar gyfer pob system, fel rhan o'r ffrwd gwaith ar gyfer Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.<br>Er gwaethaf y cynnydd a welwyd, mae angen cymryd camau o hyd i gydymffurfio'n llwyr â'r argymhelliad hwn. Mae'r grŵp Perchenogion Asedau Gwybodaeth yn ei grud o hyd, ac felly nid ydyw eto wedi trafod nac wedi cytuno ar y pwyntiau na'r amserau adfer ar ôl trychineb ar gyfer pob system – ar hyn o bryd, pwyntiau ac amserau generig yw'r rhain ac maent yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol ar gyfer y math o wasanaeth. Mae angen cynnydd gyda'r gwaith hwn a dylid pennu pwyntiau ac amserau adfer y cytunwyd arnynt, gydag adnoddau cysylltiedig, ar gyfer pob un o systemau/gwasanaethau TG y Bwrdd Iechyd.<br>Yn olaf, cynlluniwyd prawf adfer ar ôl trychineb ffurfiol ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf, ond nid ydynt wedi cymryd lle eto. Mae hyn yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi cael cadarnhad diffiniol y byddai'r cynlluniau sydd ar waith ar gyfer adfer ar ôl trychineb yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn gallu adfer ei systemau a'i wasanaethau o fewn yr amser a nodir, neu yn wir eu hadfer o gwbl, petai yna fethiant catastroffig neu ymosodiad seiber sylweddol.<br>Mewn adborth gan y sefydliadau iechyd yn Lloegr yr oedd yr ymosodiad seiber diweddar wedi effeithio'n sylweddol arnynt, nodwyd, yn y mwyafrif o achosion, er eu bod wedi gallu adennill eu data, nad |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | oeddent wedi gallu gwneud hynny o fewn yr amser a ragwelwyd. Nodwyd hefyd nad oedd elfennau eraill o’r cynlluniau adfer ar ôl trychineb, megis dulliau dros dro o weithredu tra bod systemau i lawr, wedi gweithredu yn ôl y bwriad. Byddai prawf adfer ar ôl trychineb ar raddfa lawn yn amlygu unrhyw faterion o’r fath, o fewn amgylchedd wedi’i reoli, ac yn sicrhau bod modd i’r Bwrdd Iechyd baratoi’n well ar gyfer unrhyw ymosodiad seiber neu fethiant i system/rhwydwaith yn y dyfodol. |
| A4 | Sicrhau bod y canlynol wedi eu cwblhau ym mhrosiect Parhad Busnes y Bwrdd Iechyd:<br>• datblygir cynlluniau parhad busnes ar gyfer pob adran (gan gynnwys TGCh); a<br>• diffinnir a gweithredir y broses gorfforaethol ar gyfer monitro, archwilio ac adrodd ar gynnydd wrth brofi cynlluniau parhad busnes adrannol yn rheolaidd. | - | Ar waith – wedi’i gysylltu at bwynt 3 uchod | Datblygwyd cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb ar gyfer pob adran, ond nid ydynt wedi cael eu profi’n llwyr eto – gweler y pwyntiau yn erbyn A3 uchod. |
| A5 | Datblygu a dogfennu cynllun Adfer TGCh ar ôl Trychineb ar gyfer pob system y mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb adfer ar ôl trychineb drosti. | - | Ar waith | Yn ein hadolygiad dilynol blaenorol yn 2015, nodwyd bod cynlluniau ar waith ar gyfer systemau cenedlaethol, Myrddin a Phorth Clinigol Cymru ond nad oeddent ar waith ar gyfer systemau eraill.<br>Erbyn hyn, mae cynlluniau adfer ar ôl trychineb TGCh generig wedi cael eu datblygu ar gyfer pob system ond nid ydynt wedi cael eu trafod na’u cytuno gyda Pherchenogion Asedau Gwybodaeth (perchenogion systemau) eto. Mae yna fwriad i gytuno ar gynlluniau adfer ar ôl trychineb ffurfiol ar gyfer pob system gyda Pherchenogion Asedau Gwybodaeth, unwaith y bydd y grŵp Perchenogion Asedau Gwybodaeth wedi’i sefydlu’n llwyr a’r gwaith ar gyfer Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, y mae angen ei gwblhau cyn mis Mai 2018, wedi ei gwblhau. |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| A6 | Asesu'r rheolyddion ffisegol ac amgylcheddol yng nghanolfannau data Glangwili a'r Llwyn Helyg, a darparu unrhyw welliannau angenrheidiol fel rhan o brosiect canolfan data. | - | Disodlwyd gan adolygiad NWIS | Yn ein hadolygiad dilynol yn 2015, nodwyd bod y rheolyddion mynediad yn y prif ganolfannau data yn ddigonol bryd hynny ond nad oedd y rheolyddion yn ystafelloedd y gweinyddion tu allan i'r prif ganolfannau data yn wybyddus.<br>Yn ystod 2017, cynhaliodd NWIS adolygiad ffurfiol o ganolfannau data ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r camau gweithredu er mwyn rhoi sylw i'r argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad hwn wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gwaith Llywodraethu Gwybodaeth 2017/18 ac yn y broses o gael eu cwblhau. Rhoddir sicrwydd i NWIS ynghylch cynnydd yn erbyn eu hargymhellion ac felly byddwn yn derbyn bod ein hargymhelliad wedi'i weithredu o ystyried bod adolygiad NWIS wedi disodli ein hadolygiad blaenorol. |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| A7 | Gwella cydnerthedd seilwaith y rhwydwaith TGCh ymhellach:<br>• adolygu a diweddaru pob diagram rhwydwaith ardal leol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ffurfweddiad y rhwydwaith cyfredol;<br>• ar sail asesu risg, datblygu rhaglen o adnewyddu cyfarpar fel mater o drefn wrth iddo ddod yn anarferedig neu'n annibynadwy;<br>• cynnal archwiliad i fapio lleoliad gweinyddion pob system ac unrhyw drefniadau wrth gefn sy'n gysylltiedig; a<br>• sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i gadw gwybodaeth wrth gefn ar gyfer yr holl systemau, gan gynnwys storio tapiau wrth gefn mewn sêff oddi ar y safle sy'n ddiogel rhag tân. | - | Gweithredwyd | Yn ein hadolygiad dilynol yn 2015, nodwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu mwyafrif y camau gweithredu a oedd yn ofynnol ar gyfer yr argymhelliad hwn ond nad oedd trefniadau digonol ar waith ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn ar draws yr holl systemau a bod diagramau rhwydwaith yn cwmpasu safleoedd y prif ganolfannau data yn unig.<br>Mae ein hadolygiad o'r trefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn a grybwyllir uchod yn rhoi sylw i'r ffaith nad oes trefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn ar waith ar gyfer yr holl systemau.<br>Erbyn hyn, mae diagramau rhwydwaith ar waith ar gyfer pob safle. Mae yna brosiect rhwydwaith TGCh ar waith i roi sylw i'r risgiau presennol sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith ar safle Glangwili a bwriedir cyflwyno ceisiadau am nawdd yn y dyfodol ar gyfer safleoedd acíwt eraill. |
| A8 | Cynllunio a gweithredu amserlen ar gyfer profi adferiad ar ôl trychineb a chyfryngau ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn er mwyn rhoi sicrwydd y gellid adfer cymwysiadau a data'n llwyddiannus yn yr amser gofynnol, ar ôl colli system. | - | Ar waith | Yn ein hadolygiad dilynol yn 2015, nodwyd bod gwybodaeth wrth gefn yn cael ei phrofi ar gyfer rhai systemau ond nad oedd tystiolaeth o brofi adferiad ar ôl trychineb ar gyfer systemau eraill sy'n hanfodol i fusnes, megis Iechyd Meddwl, Warws Data, E-amserlennu ac ati.<br>Bellach mae yna gatalog llawn (cofrestr asedau gwybodaeth) ar waith ar gyfer y gwasanaeth ac rydym wedi cael gwybod bod ffenestri profi'n cael eu datblygu fel rhan o ddatblygiad pellach catalog y gwasanaeth. Yn ychwanegol at hyn, mae meddalwedd newydd ar gyfer cadw gwybodaeth wrth gefn yn monitro'r holl waith o gadw gwybodaeth wrth gefn ac yn rhybuddio os na fu'r gwaith cadw gwybodaeth wrth gefn yn |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | llwyddiannus neu os cododd unrhyw faterion penodol.<br>Dengys hyn y gwnaed cynnydd ond nad yw'r gwaith cadw gwybodaeth wrth gefn yn cael ei brofi'n llawn eto. |
| **Ansawdd Data** | | | |
| A1 Adolygu cyfraniad pob grŵp cefnogi ansawdd data a'u mecanweithiau adrodd, a sicrhau bod proses ddwysáu gyflawn i hysbysu'r Bwrdd ynghylch materion a risgiau allweddol. | - | Gweithredwyd | Yn ein hadolygiad dilynol yn 2015, nodwyd bod cyfarfodydd gweithredol yn cael eu cynnal ar gyfer y systemau dan reolaeth TG.<br>Erbyn hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd Berchenogion Asedau Gwybodaeth ar waith ar gyfer pob system sy'n hanfodol i fusnes, ac mae yn y broses o adnabod Perchenogion Asedau Gwybodaeth ar gyfer gweddill y systemau. Mae grŵp y Perchenogion Asedau Gwybodaeth yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cwmpasu ansawdd data fel rhan o'i gylch gwaith. Caiff y grŵp ei fonitro gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a chaiff unrhyw faterion neu risgiau eu dwysáu i'r tîm Gweithredol neu'r Bwrdd trwy'r is-bwyllgor hwn. |
| A2 Cychwyn Grŵp Llywio Ansawdd Data: Cytuno ar yr Amodau Gorchwyl a'u hawdurdodi; pennu hyrwyddwyr ansawdd data adrannol ar draws y meysydd busnes a sicrhau y caiff y grŵp hwn ei gynnwys o fewn y mecanweithiau adrodd ar gyfer grwpiau sy'n cefnogi. | - | Gweithredwyd | Fel A1 uchod, disodlwyd grŵp llywio ansawdd data gan y grŵp Perchenogion Asedau Gwybodaeth, y mae ansawdd data yn rhan o'i gylch gwaith. Y Perchenogion Asedau Gwybodaeth yw'r hyrwyddwyr ansawdd data ar gyfer eu hadrannau. |
| A3 Cyflwyno adroddiad blynyddol ar ansawdd data, i roi sicrwydd ar raddfa sefydliadol sy'n cwmpasu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau ansawdd data, ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn. | - | Ar waith | Yn ein hadolygiad dilynol yn 2015, nodwyd bod adroddiad ar ansawdd data ar waith ar gyfer system Myrddin ond nad oedd yn cynnwys systemau eraill.<br>Ni welwyd unrhyw gynnydd pellach gyda hyn hyd yn hyn, ond cynlluniwyd adroddiad cychwynnol, a fydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol, ar gyfer mis Hydref 2017 gyda datblygiad pellach ar gyfer adroddiad blynyddol 2017-18.<br>O ystyried y cynnydd araf yn erbyn yr argymhelliad hwn, byddwn yn adolygu adroddiad blynyddol 2017/18 a'r wybodaeth am ansawdd data yn yr adroddiad hwnnw. Mae ar y Bwrdd Iechyd angen i gynyddu cyflymder ei gynnydd wrth adrodd am ansawdd data. |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| A4 | Egluro rolau a chyfrifoldebau ansawdd data ar draws y Bwrdd Iechyd a sicrhau, ar gyfer pob aelod o staff â chyfrifoldeb dros gywirdeb data, fod:<br>• cyfrifoldebau’n cael eu diffinio o fewn swydd-ddisgrifiadau safonol; a<br>• bod y rhain yn cael eu cyfathrebu a’u deall. | - | Gweithredwyd | Yn ein hadolygiad dilynol yn 2015, nodwyd bod hyn wedi cael ei weithredu gan ei fod bellach yn rhan o’r swydd-ddisgrifiad ar gyfer Cymru gyfan sy’n cynnwys adran benodol ar ansawdd data ac yn cael ei ddefnyddio gan y GIG ledled Cymru. |
| A5 | Adolygu’r ‘Strategaeth ar gyfer Sicrhau Gwybodaeth o fewn Bwrdd Iechyd Hywel Dda’ a sicrhau ei bod yn cwmpasu pob elfen o bolisi ansawdd data, gan gynnwys:<br>• safonau data;<br>• y defnydd o gofnodion gwybodaeth y claf;<br>• diogelwch a chyfrinachedd;<br>• achrediad data a chofnodion iechyd;<br>• ansawdd y data a ddefnyddir wrth adrodd ar berfformiad;<br>• data a gafwyd gan ddarparwyr eraill;<br>• cyfeiriadau at bolisïau Archwilio Codio Clinigol a Chodio Clinigol. | - | Ar waith | Er y nodwyd yng Nghynllun Gweithredu’r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015 y datblygwyd strategaeth ddiwygiedig, a oedd yn mynd trwy’r broses llywodraethu gwybodaeth, ni chawsom gopi o’r strategaeth ddrafft bryd hynny.<br>Nawr mae’r Strategaeth Sicrhau Gwybodaeth yn cael ei hadolygu fel rhan o raglen Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol sy’n cynnwys adolygiad ehangach o’r holl ddogfennau llywodraethu gwybodaeth, megis polisïau, gweithdrefnau a dogfennau WASPI, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Ni chwblhawyd y cynllun yn derfynol adeg ein harchwiliad ac nid oedd wedi cael ei gymeradwyo chwaith. Byddwn yn dilyn i fyny ar yr argymhelliad hwn fel rhan o’n hasesiad risg TG yn 2018. |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| A6 | Sicrhau bod prosiect mudiad at un system Myrddin yn cynnwys:<br>• ymarfer mapio prosesau i safoni gweithdrefnau; a<br>• rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer yr holl staff sy'n mewnbynnu data. | - | Gweithredwyd | Yn ein hadolygiad dilynol yn 2015, nodwyd bod yr holl wasanaethau, ac eithrio Iechyd Meddwl ac Iechyd Rhyw, wedi cael eu mudo i mewn i un system Myrddin.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu, oherwydd natur sensitif y data, y dylid cadw system Myrddin ar wahân ar gyfer Iechyd Rhyw, ac rydym yn derbyn y penderfyniad hwn.<br>I gychwyn, lluniwyd amserlen o waith i fudo Iechyd Meddwl i mewn i brif system Myrddin ym mis Ebrill 2015. Serch hynny, nododd y Bwrdd Iechyd a NWIS, wrth weithio trwy logisteg y mudo gyda NWIS, y byddai hyn yn anodd. Mae'r Bwrdd Iechyd nawr yn aros i NWIS symud hyn yn ei flaen ac felly, i raddau helaeth, mae tu hwnt i'w reolaeth. O ystyried y ffaith fod hyn o fewn cylch gwaith NWIS yn hytrach na'r Bwrdd Iechyd; rydym wedi cymryd bod cam hwn wedi cael ei weithredu o bersbectif y Bwrdd Iechyd. |
| A7 | Sicrhau y dyrennir adnoddau staffio digonol i bob tîm codio clinigol, ac adolygu'r strwythur a'r gofynion addysgiadol i gynnal cydraddoldeb ar draws y siroedd. | - | Gweithredwyd | Yn ein hadolygiad yn 2015, nodwyd y cwblhawyd y gwaith gweithredu ar yr argymhelliad hwn. Ers yr adolygiad hwnnw, mae NWIS wedi rhoi arweiniad pellach ynghylch y nifer o godwyr sy'n ofynnol ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fod yn cydymffurfio â'r canllawiau mwy diweddar hyn. Bydd y gwaith yr ydym wedi ei gynllunio yn 2018 ar gyfer adolygiad dilynol o godio clinigol ar draw Cymru gyfan yn adolygu trefniadau codio yn fwy manwl. |
| A8 | Adolygu'r prosesau ansawdd data ar raddfa'r gwasanaeth a sicrhau bod arfer da a mecanweithiau profi'n cael eu rhannu a'u defnyddio ar draws y Bwrdd Iechyd. Gallai hyn gynnwys:<br>• arferion glanhau data sy'n digwydd fel mater o drefn i wella cysondeb rhwng systemau Radioleg a'r System Gweinyddu Cleifion (PAS); a | - | Ar waith | Yn ein hadolygiad dilynol yn 2015, nodwyd y gwelwyd cynnydd, ond nad oedd y cynnydd yn rhoi sylw llawn i argymhelliad yr archwiliad, yn enwedig mewn perthynas ag adrodd ar gywirdeb codio clinigol.<br>Erbyn hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd Berchenogion Asedau Gwybodaeth yn eu lle. ac fel rhan o'r grŵp Perchenogion Asedau Gwybodaeth; mae dulliau safonol o drafod ansawdd data mewn perthynas â diweddariadau Meddygon Teulu, marwolaethau cleifion, cofnodion dyblyg, ac ati, yn cael eu datblygu. Nid yw hyn wedi digwydd eto.<br>Datblygwyd a gweithredwyd proses archwilio codio clinigol, ond cafwyd trafferthion wrth gynnal yr archwiliadau oherwydd pwysau gwaith aruthrol a newidiadau i dargedau cenedlaethol. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| • sefydlu profion samplau wythnosol ar gyfer goruchwylwyr codio clinigol a mecanweithiau gwirio adrannol eraill sy’n arfer da. | | | Er ein bod yn teimlo y gwelwyd cynnydd yn y maes hwn, teimlwn nad yw’r argymhelliad wedi ei fodloni’n llwyr o hyd. Rydym yn cydnabod nad yw’r holl elfennau sydd wedi rhwystro hyn dan reolaeth y Bwrdd Iechyd, megis y newidiadau i’r targedau cenedlaethol. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn, yn enwedig mewnbwn ac effaith y grŵp Perchenogion Asedau Gwybodaeth mewn perthynas â’r broses hon. |

# Atodiad 2

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion newydd yn ymwneud â chadw gwybodaeth wrth gefn

Arddangosyn 4: ymatebion rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (Ydy/Nac Ydy) | Wedi'i dderbyn (Ydy/Nac Ydy) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A11 | Monitro meddalwedd Solarwinds yn barhaus i adnabod materion gyda'r rhwydwaith cyn iddynt ddatblygu i fod yn argyfyngus. | Adnabod materion sy'n amlygu gyda'r system a'r rhwydwaith cyn iddynt ddod yn argyfyngus. | Ydy | Ydy | Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o gyflwyno offerynnau monitro uwch o fewn Solarwinds i sicrhau bod modd anfon rhybudd at Bennaeth TGCh a'r Rheolwr Seilwaith i sicrhau y caiff materion gyda'r rhwydwaith eu monitro yn ystod oriau arferol a thu allan i oriau arferol. | Mehefin 2018 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwybodeg<br><br>Pennaeth TGCh |
| A12 | Gweithredu amserlen fonitro ddyddiol ar gyfer system cadw gwybodaeth wrth gefn Asigra i adnabod materion gyda'r capasiti i storio, cyn iddynt ddatblygu i fod yn argyfyngus. | Adnabod storfeydd gwybodaeth wrth gefn sy'n agosáu at eu capasiti cyn bod y capasiti i storio'n llawn a'r sefyllfa'n dod yn argyfyngus. | Ydy | Ydy | Mae gan y seilwaith storio sydd newydd gael ei gyflwyno well trefniadau monitro ac offeryn dadansoddi wedi'i sefydlu o'i fewn, ac felly mae'n hawdd monitro. | Mehefin 2018 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwybodeg<br><br>Pennaeth TGCh |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru